Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Rhian Huws Williams
Prif Weithredwr
Cyngor Gofal Cymru
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd CF10 1E

10 Awst 2015

Annwyl Rhian,

Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am eich ymateb terfynol i'm Gofynion Gweithredu, ac rwyf nawr wedi cael cyfle i'w ddadansoddi[1].

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd, y bydd fy Ngofynion Gweithredu yn cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau a geisir yn cael eu cyflawni ar gyfer pobl hŷn.

Roedd eich ymateb yn dangos ymrwymiad i gyflawni'r newid gofynnol yr amlinellais yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac mae'n rhoi manylion y camau rydych chi wedi eu cymryd neu y byddwch chi'n eu cymryd i sicrhau nifer o'r canlyniadau a geisir. Rwyf hefyd yn falch eich bod wedi rhoi adroddiad cynnydd clir, yn ogystal â chamau gweithredu manwl i'r dyfodol, ar gyfer cymryd y camau gofynnol a sicrhau'r canlyniadau a geisir.

[1] Fel rydych chi'n ei wybod, mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn mynnu fy mod yn cadw cofrestr o'r ymatebion i fy Ngofynion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n rhan o fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan, ynghyd â dadansoddiad o bob ymateb.

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Nodais yn benodol yr asesiad manwl am yr ymgysylltu helaeth sydd wedi cael ei wneud i ganfod a diwallu anghenion dysgu comisiynwyr, yn ogystal â'r wybodaeth a roddwyd am waith yn y dyfodol a fydd yn cael ei wneud ar y cyd â'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r gwaith hwn wedi nodi amcanion dysgu clir a ddylai alluogi comisiynwyr i adnabod darpariaeth gwasanaeth da a deall cyd-destun a chyfrifoldebau comisiynu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Atodir dadansoddiad manwl o'r wybodaeth ychwanegol rydych chi wedi'i rhoi mewn ymateb i'm cais.

Ar sail y dystiolaeth a roddwyd i mi, rwyf yn fodlon bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â dau o'm Gofynion Gweithredu neu ei fod wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newid gofynnol. Fodd bynnag, mae dau faes o hyd y mae angen eu datblygu ymhellach i fy sicrhau y bydd y gwella a'r newid gofynnol yn cael eu cyflawni ar gyfer pobl hŷn.

Fel rwyf wedi'i ddweud yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a wyf yn credu y bydd y newid rwyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei gyflawni ledled Cymru. Rwyf hefyd yn bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol mewn perthynas â hyn a'r camau gweithredu a geisir gan gyrff unigol sy'n rhan o'r Adolygiad. Bydd y datganiadau hyn yn cael eu gwneud ar 11 Awst 2015. Ar y dyddiad hwn, byddaf yn cyhoeddi fy mwriad i gynnal Adolygiad dilynol ymhen 18 mis. Ar y cam hwn byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau rwyf yn disgwyl eu gweld wedi cael eu cyflawni'n gyson ar draws y sector cartrefi gofal.

Byddaf hefyd yn gwneud datganiad 'Blwyddyn yn Ddiweddarach' ym mis Tachwedd a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad dilynol rwyf yn bwriadu ei gynnal, ei gwmpas a'r dull gweithredu byddaf yn ei fabwysiadu.

Os byddai'n ddefnyddiol i chi gwrdd â fi i drafod fy nadansoddiad o'ch ymateb, cysylltwch â mi. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi i sicrhau bod pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn cael yr ansawdd bywyd gorau posibl a'u bod yn cael gofal o'r safon uchaf.

Yn gywir

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Gofal Cymru

Mae Cyngor Gofal Cymru'n croesawu adolygiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru fel darn arwyddocaol o waith, sy'n amlygu'r angen i ganolbwyntio ar ansawdd bywyd pobl hŷn mewn gofal preswyl yng Nghymru.

Angen Gweithredu 5.1

Casgliad Terfynol - Rhannol

5.1 Datblygu a gweithredu rhaglen recriwtio ac arwain genedlaethol er mwyn recriwtio a hyfforddi rheolwyr cartrefi gofal ar gyfer y dyfodol sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol.

Dylai'r rhaglen gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus achrededig ar gyfer rheolwyr cartrefi gofal heddiw ac yn y dyfodol a dylai eu cefnogi i fod yn arweinwyr arferion ac yn hyrwyddwyr diwylliant positif mewn cartrefi gofal.

Adrodd yn ôl yn flynyddol ar argaeledd rheolwyr cartrefi gofal cymwys a medrus mewn cartrefi gofal o gwmpas Cymru, yn cynnwys effeithiau lefelau swyddi gwag ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn.

Mae nifer o ymrwymiadau a chamau cadarnhaol wedi'u cymryd gan y Cyngor Gofal i sicrhau y bydd rheolwyr cartrefi gofal yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi yn y dyfodol â'r sgiliau a'r cymwyseddau cywir. Rwy'n croesawu'r ymrwymiadau a'r camau hyn ac, yn ei dro, eu potensial i sicrhau bod gan gartrefi gofal reolwyr parhaol sy'n gallu creu diwylliant gofal sy'n galluogi pawb ac sy'n llawn parch gan helpu gofalwyr sy'n cael eu talu i alluogi pobl hŷn i brofi'r ansawdd bywyd orau.

Un enghraifft, yw'r ymrwymiad i ymgymryd â rhaglen hirdymor i ddatblygu rheolwyr gofal cymdeithasol ac i gynyddu nifer y rheolwyr cofrestredig 20% dros gyfnod o dair blynedd, 2015-18, a llunio fframwaith rheolwyr gofal cymdeithasol a fydd yn cynnwys rhaglen baratoi, rhaglen gymhwyso a rhaglen ôl-gymhwyso, a fydd yn ei le erbyn 2017/18.

Codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol y Cyngor Gofal i'r Angen Gweithredu hwn, gan fod eu hymateb cychwynnol wedi cydosod gweithgareddau presennol, gweithgareddau blaenorol a gweithgareddau arfaethedig y dyfodol, yn hytrach na hoelio sylw ar y gofynion penodol a nodwyd yn fy Adolygiad i. Gan hynny, mae'n dda gen i weld bod y Cyngor Gofal wedi ymateb yn uniongyrchol i'r pryder hwn, drwy roi rhagor o fanylion am ddatblygiadau yn y fframwaith rheoli ar gyfer gofal cymdeithasol ac rwy'n croesawu'r llwybrau cynnydd ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ynghyd â'r arfarniad o'r effaith. Fe allai hyn fod yn fan cychwyn ar gyfer datrys y diffyg rheolwyr cartrefi gofal yng Nghymru ar hyn o bryd.

Serch hynny, er bod y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal wedi'i amlygu fel cyfle i gryfhau gwaith partneriaeth ynglŷn â'm Hadolygiad, nid yw'n glir sut y bydd y grŵp strategol hwn yn darparu seilwaith i helpu'r Cyngor Gofal i fesur effaith lefelau'r swyddi gwag i reolwyr cartrefi gofal ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn. Er gwaethaf adborth clir yn amlygu'r diffyg asesiadau ynglŷn ag effaith lefelau'r swyddi gwag i reolwyr cartrefi gofal ar ansawdd a gofal bywyd pobl hŷn, rwy'n siomedig nad yw pwysigrwydd y gofyniad hwn wedi'i ddirnad ar lefel y sefydliad nac ar lefel weithredol. Nododd fy Adolygiad y byddai peidio â dirnad hyn yn arwain at risg uwch o ansawdd bywyd a gofal annerbyniol i bobl hŷn.

Rwy'n disgwyl y bydd y Cyngor Gofal nid yn unig yn cymryd camau i fonitro effaith eu hymrwymiadau a'u camau ar y gweithlu gofal cymdeithasol ond, yn bwysicaf oll, ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Angen Gweithredu 5.3

Casgliad Terfynol – Rhannol

5.3 Datblygu a gweithredu set safonol o sgiliau gorfodol a chymwysterau sy'n seiliedig ar werthoedd, a hynny'n genedlaethol, ar gyfer recriwtio staff gofal mewn cartrefi gofal.

Mae'n glir bod Cyngor Gofal Cymru wedi mynegi ac yn dal i fynegi'r cymwyseddau, wedi'u seilio ar sgiliau a gwerthoedd, y mae ar staff cartrefi gofal ledled Cymru eu hangen ar draws ystod o ddeunyddiau a ffrydiau gwaith presennol, megis y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Er hynny, rwy'n siomedig nad oes ymrwymiad wedi'i roi i gyhoeddi'r rhain mewn dogfen gryno a hwylus, er mwyn helpu darparwyr i recriwtio staff gofal yn unol â'm Hangen Gweithredu.

Serch hynny, mae'n dda gen i nodi'r gwaith gyda Chanolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru a'r ymrwymiad i gloriannu nifer y bobl sy'n symud i gyflogaeth am dâl mewn gofal cymdeithasol, gan gynnwys cartrefi gofal. Peth cadarnhaol yw bod offeryn aciwtedd yn cael ei hybu ar draws y rhwydweithiau hyn i ddod o hyd i bobl sy'n addas ar gyfer gofal cymdeithasol. Yn niffyg set safonol o gymwyseddau wedi'u seilio ar sgiliau a gwerthoedd yn unol â'r diffiniad yn fy Angen Gweithredu, rwy'n disgwyl i'r offeryn aciwtedd gael ei adolygu, ei addasu a'i hyrwyddo fel offeryn i ddarparwyr, i bennu addasrwydd darpar ymgeiswyr – yn unol â'm hadborth blaenorol i.

Codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol y Cyngor Gofal i'r Angen Gweithredu hwn, sef nad oedd gwybodaeth wedi'i darparu ynghylch asesu neu arfarnu effeithiolrwydd adnoddau'r dysgu'r Cyngor Gofal o ran eu gallu i ennyn diddordeb ymarferwyr gofal cymdeithasol, gan gyfrannu felly at greu diwylliant gofal cadarnhaol, ac at ganlyniadau ansawdd bywyd i bobl hŷn. Heb yr wybodaeth hon, mae'n anodd asesu effaith y camau presennol a'r camau arfaethedig ar bobl hŷn, nac effeithiolrwydd adnoddau dysgu o ran hybu gofal trugarog ac urddasol. Gan hynny, mae'n dda gen i nodi bod y Cyngor Gofal wedi buddsoddi mewn llwyfan dysgu ar-lein newydd, 'Moodle', a fydd yn eu galluogi i fynd ati'n systemataidd i fonitro a chloriannu sut mae'r adnoddau a'r dulliau dysgu sydd ar gael i'r sector yn cael eu defnyddio.

Mae hyn yn gam cadarnhaol ymlaen gan fod gwaith mewnol i gloriannu adnoddau'r Cyngor Gofal yn hanfodol os bwriedir i'r gweithlu gofal cymdeithasol gael ei arfogi i gyflawni uchelgais Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Ceir nifer o gamau cadarnhaol y mae'r Cyngor Gofal wedi'u cymryd ac wedi ymrwymo i'w cymryd i fynd i'r afael â'm pryderon blaenorol ynghylch a oedd adnoddau'r Cyngor Gofal yn gymesur â sicrhau ansawdd bywyd i'r preswylwyr ac â herio'r diwylliant wedi'i seilio ar dasgau a ddisgrifiais yn 'Lle i'w Alw'n gartref'. Rwyf wedi rhoi croeso cyhoeddus i'r Wobr Ymsefydlu mewn Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, ac i'r cod ymarfer newydd i ymarferwyr gofal cymdeithasol, sy'n tanlinellu pwysigrwydd hawliau preswylwyr megis uniondeb, urddas a phreifatrwydd. Er hynny, roeddwn i'n arbennig o falch gweld y Cyngor Gofal yn cofleidio ffyrdd newydd o ddysgu er mwyn ymgorffori cymwyseddau wedi'u seilio ar werthoedd yn y gweithlu gofal cymdeithasol drwy lansio'u DVD Cartref oddi Cartref.

Rwy'n credu bod y datblygiad diweddar hwn wedi dangos gallu i fynd i'r afael â chalonnau a meddyliau staff gofal cymdeithasol drwy greu argraff rymus i adeiladu arni, ac i gael ei meithrin gan reolwyr cartrefi gofal yn eu gwaith i ddatblygu diwylliant cadarnhaol mewn cartrefi gofal. Mae hefyd yn dangos bod y Cyngor Gofal wedi dechrau ar waith pwysig y bydd angen iddo gael ei barhau gan Ofal Cymdeithasol Cymru er mwyn sicrhau bod fy Angen Gweithredu'n cael ei gwblhau'n llawn. Er bod yna gyfeiriad at ymgyrch cyhoeddusrwydd i hybu'r arferion gorau ar sail y deunyddiau hyn, rwy'n methu asesu effaith yr ymgyrch o ran ei chyrhaeddiad a'i phosibiliadau ar gyfer rhoi'r arferion gorau ar waith gan nad oes rhagor o wybodaeth wedi'i roi i ategu hyn.

Rwy'n cydnabod yn llawn fod elfen orfodol yr Angen Gweithredu hwn y tu allan i gylch gorchwyl presennol y Cyngor Gofal, ond rwy'n siomedig nad oes cyfeiriad arall wedi'i wneud at fy adborth cychwynnol ynghylch pwysigrwydd creu achos busnes strategol o blaid cynnwys cymwyseddau gorfodol, wedi'u selio ar sgiliau a gwerthoedd, ym Mil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) o eiddo Llywodraeth Cymru. Yn rhinwedd ei swydd fel y corff statudol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan ymarferwyr gofal cymdeithasol y sgiliau a'r cymwysterau cywir i weithio yn ôl safon broffesiynol uchel, roeddwn i'n disgwyl gweld y Cyngor Gofal yn mynd ar ôl cyfleoedd yn y ddeddfwriaeth i wneud hyn.

Mae fy nghais am ddatganiad pendant ar sut y bydd y Cyngor Gofal yn mynd ar ôl cyfleoedd i ymgorffori eu hadnoddau mewn ymarfer gofal cymdeithasol, mewn cartrefi gofal a thrwy eu gwaith parhaus, ac ar y cyd

â chomisiynwyr ac AGGCC, wedi'i ateb yn rhannol drwy gyfeirio at gyfleoedd yn y dyfodol ar ffurf Gofal Cymdeithasol Cymru pan roddir Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar waith. Er fy mod yn cydnabod y bydd y cyfnod pontio rhwng Cyngor Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn gofyn am elfen o ffocws mewnol, mae'n hanfodol bod gwaith partneriaeth strategol yn parhau, ar sail amcanion a deilliannau sefydliadol pendant a fydd yn gwella ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn yn unol â'r amlinelliad yn fy Angen Gweithredu.

Mae'r ymateb yn rhoi amserlenni strategol ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn nodi adborth cadarnhaol gan reolwyr cartrefi gofal ynglŷn ag effaith y DVD Cartref oddi Cartref, ond nid yw'n rhoi digon o sicrwydd o ran sut y bydd y Cyngor Gofal yn datblygu ac yn sbarduno cysylltiadau â'r gweithlu gofal cymdeithasol er mwyn creu cymaint â phosibl o'r newid yr hoffwn i fel Comisiynydd ei weld. Yn niffyg gofynion gorfodol, mae'n hanfodol bod camau'n cael eu cymryd yn y meysydd hyn a bod yr adnoddau'n cael eu monitro a'u cloriannu'n barhaus.

Angen Gweithredu 5.4

Casgliad Terfynol – Derbyniol

5.4 Datblygu a gweithredu proses gynefino orfodol genedlaethol a rhaglen o hyfforddiant parhaus i staff gofal. Dylid datblygu hyn o fewn fframwaith o werthoedd a dylai gynnwys:

- Anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn, yn cynnwys pobl hŷn sy'n byw â dementia.
- Diogelu oedolion, esgeulustod emosiynol a 'digwyddiadau byth bythoedd'.
- Sut i leisio pryderon.
- Dulliau cyfathrebu da a dulliau eraill o gyfathrebu i rai sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau.
- Cefnogi heb anablu.
- Hawliau pobl hŷn a'r hyn sy'n ddyledus iddyn nhw.
- Gofal, tosturi, caredigrwydd, urddas a pharch.

Rwy'n croesawu ymrwymiad y Cyngor Gofal i gyflawni pob agwedd ar yr Angen Gweithredu hwn, ac yn enwedig felly eu gonestrwydd wrth gydnabod y bydd angen i rai adnoddau, megis y pecyn hyfforddi ar Ddiogelu, gael eu hadolygu er mwyn cyrraedd y meincnod newydd sydd wedi'i osod gan fy Adolygiad i a chan newidiadau yn y rhaglen ddeddfwriaethol bresennol, yn ogystal â'r gwaith presennol i ddatblygu '*Fframwaith Dysgu a Datblygu i nodi'r wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen ar y gweithlu a allai helpu pobl sy'n byw â dementia. Bydd gwerthoedd a hawliau wrth graidd y Fframwaith hwn, gan dynnu ar y cod ymarfer proffesiynol ar gyfer gofal cymdeithasol a'r datganiad o hawliau pobl hŷn'*.

Rwy'n rhoi croeso cynnes i'r ymagwedd sy'n cael ei defnyddio i ddatblygu'r fframwaith drwy ymgynghori â rheolwyr cartrefi gofal, rhanddeiliaid allweddol, ac ymarferwyr gofal cymdeithasol ar draws y sector. Mae gan y dull gweithio hwn y potensial i gasglu profiadau o fywyd go iawn a myfyrio arnyn nhw, sef profiadau a fydd yn herio'r 'diwylliant ni a nhw' y tynnais i sylw ato yn fy Adolygiad.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i gloriannu effaith y DVD Cartref oddi Cartref a'r adnoddau dysgu ar-lein ar reolwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol ym mis Ebrill 2016. Er bod yr adnoddau'n hwylus ac yn ddifyr iawn, mae'r gallu i fesur a chloriannu eu heffaith o ran sicrhau canlyniadau ansawdd bywyd ar ran pobl hŷn yng Nghymru yn hanfodol, a byddwn yn disgwyl gweld hyn yn elfen bendant mewn unrhyw arfarniad.

Drwy fyfyrio ar yr angen i adolygu adnoddau hyfforddi perthnasol, drwy gloriannu adnoddau newydd, a thrwy addo ymgynghori'n ehangach er mwyn llwyr ddeall heriau gofal cymdeithasol yn nhermau ymarferwyr, rheolwyr cartrefi gofal, a hyrwyddwyr dementia, mae'r Cyngor Gofal wedi rhoi sicrwydd imi y gall arferion gwael gael eu herio drwy ystod o adnoddau hyfforddi priodol y mae'r Cyngor wedi'u hymchwilio, wedi'u datblygu ac wedi'u comisiynu.

Gan hynny, rwy'n croesawu'r ymrwymiad i gryfhau gwaith partneriaeth â'r asiantaethau hynny sy'n gyfrifol am reoleiddio, comisiynu a chontractio gwasanaethau i sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu hymgorffori mewn arferion, yn ogystal â gweithdai gyda Rheolwyr Cofrestredig.

Er hynny, yn hytrach nag ‘ymrwymiad i ystyried datblygu rhwydwaith o ymarferwyr a hyrwyddwyr gofal dementia ar draws y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys cartrefi gofal, fel modd i adeiladu a rhannu arbenigedd yn y sector’, rwy’n disgwyl i waith i rannu cyfleoedd ar gyfer arferion da mewn gofal dementia fod yn rhan safonol o’r arlwy a hynny fel rhan o gylch gorchwyl y Cyngor Gofal i broffesiynoli’r gweithlu ac i ddiogelu pobl hŷn rhag diwylliannau gwael mewn gofal.

Angen Gweithredu 6.11

Casgliad Terfynol - Derbyniol

6.11 Datblygu rhaglen hyfforddi genedlaethol yn seiliedig ar gymhwysedd ar gyfer comisiynwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal wrth gomisiynu, yn cynnwys anghenion pobl sy’n byw â dementia.

Rwy’n croesawu ymateb y Cyngor Gofal i’r Angen Gweithredu hwn, sy’n cynnig asesiad manwl o waith ymgysylltu helaeth sydd wedi’i wneud i ddod o hyd i anghenion dysgu’r comisiynwyr ac i ateb yr anghenion hynny, a gwaith at y dyfodol sydd i’w wneud ar y cyd â’r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae’r gwaith hwn wedi nodi amcanion dysgu clir a fydd yn fodd i’r comisiynwyr adnabod darpariaeth dda mewn gwasanaethau, a chyd-destun a chyfrifoldebau comisiynwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rwy’n arbennig o falch nodi’r adroddiad ar y cynnydd, sy’n rhoi dadansoddiad clir o anghenion dysgu’r comisiynwyr yn ogystal â themâu clir i’w datblygu, megis ymgysylltu â’r farchnad a’i datblygu, a’r angen am safonau sy’n mynd i’r afael ag asesu anghenion y boblogaeth.

Codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol y Cyngor Gofal i’r Angen Gweithredu hwn, sef nad oedd amserlen na cherrig milltir ar gyfer cwblhau’r gwaith hwn nac eglurder o ran ymrwymiad y partneriaid allweddol. Mae’r Cyngor Gofal wedi ymateb â nod clir o weithio gyda darparydd dysgu er mwyn datblygu hyfforddiant a/neu gymwysterau erbyn

diwedd 2015, a thystiolaeth o ymroddiad strategol o du'r cyfranwyr allweddol. Heb hyn, roedd yna risg na fyddai digon o flaenoriaeth wedi'i rhoi i weithredu.

Er nad yw'r ymateb yn rhoi amserlen fanwl, fe ddylai eglurder ymagwedd y Cyngor Gofal at gomisiynu (o ran amcanion dysgu) ganiatáu i gynnyrch o safon gael ei ddarparu a hwnnw'n adlewyrchu anghenion y comisiynwyr ac yn adeiladu eu dealltwriaeth o'r cyd-destun a'r cyfrifoldebau wrth gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal.